

Ymholiad: Effeithiau economaidd a diwylliannol polisi masnach ac amgylcheddol ar ffermydd teuluol yng Nghymru. Tystiolaeth Comisiynydd y Gymraeg

Cyflwyniad a chefnidir i Gomisiynydd y Gymraeg

Swyddogaeth Comisiynydd y Gymraeg yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Fe'i sefydlwyd yn 2012 yn sgil cyflwyno Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r Comisiynydd yn gweithio tuag at gynyddu defnydd o'r Gymraeg yng nghyswllt darparu gwasanaethau a chynyddu cyfleoedd eraill i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'n rhoi sylw i statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a'r egwyddor y dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Gall y Comisiynydd roi cyngor i unrhyw berson, ac mae'n ymateb i'r ymholiad hwn oherwydd pwysigrwydd y gymuned ffermio yng Nghymru i hyfywedd y Gymraeg. Rydym yn ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd gennych isod/

- **Pa mor unigryw yw ffermydd teuluol a pha mor arwyddocaol yw eu cyfraniad at fywyd diwylliannol Cymru?**

Mae ffermydd teuluol yn ganolog i'r economi wledig, i ddiwylliant Cymru ac i hyfywedd y Gymraeg. Mae ffermydd Cymru ar gyfartaledd yn sylweddol lai na ffermydd Lloegr a'r Alban.¹ Yn ôl ffigurau'r Cyfrifiad Cenedlaethol mae 43% o weithwyr amaethyddol yn siarad Cymraeg, o gymharu â 19% o'r boblogaeth yn gyffredinol. Dyma'r sector cyflogaeth â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg.² Mae busnesau amaethyddol yn cynnal llawer o gymunedau gwledig lle mae'r Gymraeg yn iaith naturiol bob dydd.

- **Beth yw'r prif heriau sy'n wynebu ffermydd teuluol, a chymunedau ffermio'n fwy cyffredinol, yng Nghymru?**

Mae'r prif heriau ar hyn o bryd yn deillio o ymadawiad Prydain â'r Undeb Ewropeaidd (UE). Bu cymorth ariannol yr UE yn gefnogaeth i ffermydd Cymru ac mae'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â sefydlu cyfundrefnau newydd yn creu pryder i'r gymuned ffermio. Dylid nodi fod incwm cyfartalog ffermydd Cymru yn is nag incwm cyfartalog ffermydd yr Alban a Lloegr.³ Gallai cyfundrefnau gwahanol o fewn y Deyrnas Unedig, yn ogystal â gwahaniaethau rhwng y DU a'r UE, effeithio ar allu ffermwyr i gystadlu. Mae'r Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru wedi adnabod risg i allu ffermwyr defaid a chig eidion, yn benodol, i gystadlu yn dilyn Brexit. Oherwydd y bygythiad i ffermwyr defaid, rhagwelir y caiff Brexit effeithiau mwy negyddol ar ogledd a gorllewin Cymru na rhannau eraill o'r wlad.⁴

Mae ffermydd teuluol Cymru yn cefnogi cannoedd ar filoedd o swyddi yn y sector cyflenwi bwyd. Gallai datblygiadau sy'n niweidiol i'r ffermydd gael dylanwad negyddol, yn eu tro, ar gyflogaeth yn gyffredinol mewn mannau gwledig. Mae pryder eisoes ynglŷn â phobl ifanc yn gadael ardaloedd gwledig oherwydd prinder gwaith. Mae pryder hefyd am anallu pobl ifanc i ymsefydlu yn eu hardal leol oherwydd prisiau tai sydd y tu hwnt i'w gafael. Ystyrir bod y farchnad ail gartrefi yn cyfrannu at y sefyllfa hon, sydd yn arwain at ddiboblogi gwledig. Oherwydd y cysylltiad agos rhwng y gymuned

¹ [farming-in-wales-web-welsh.pdf \(senedd.cymru\)](#)

² [Securing Wales' Future Summary \(llyw.cymru\)](#)

³ [farming-in-wales-web-welsh.pdf \(senedd.cymru\)](#)

⁴ [The-Implications-of-Brexit-for-Agriculture-Rural-Areas-and-Land-Use-in-Wales-1.pdf \(wcpp.org.uk\)](#)

ffermio a'r Gymraeg, gallai'r holl heriau hyn fygwth hyfywedd y Gymraeg fel iaith gymunedol mewn nifer o aradloedd, yn arbennig yng ngogledd a gorllewin Cymru.

- **Beth yw goblygiadau posib cytundebau masnach rydd i ffermwyr yng Nghymru?**

Gallai cytundeb heb dariffau na chwotâu olygu bod prisiau cig o Brydain yn gostwng dros amser, gyda safonau uchel cynhyrchu bwyd ym Mhrydain yn ei gwneud yn anodd i ffermwyr gystadlu â chynhyrchwyr o dramor â safonau is. Nid oes sicrwydd y byddai prynwyr yn cefnogi ffermwyr Cymru. Gallai prisiau is fod yn llawer pwysicaf na safonau cynhyrchu uwch, yn enwedig i'r cwsmeriaid nad ydynt yn derbyn cyflogau uchel. Ar ben hynny, petai cytundebau masnach rydd yn caniatáu gwerthu bwyd ym Mhrydain a gynhyrchir i safon is, gallai'r UE rwystro allforion o Brydain er mwyn diogelu safonau bwyd yr Undeb. Byddai hyn yn golygu, nid yn unig bod ffermwyr Cymru yn cystadlu â mewnforion cynyddol i'r wlad hon, ond y byddent yn colli mynediad i farchnadoedd gwledydd eraill.

- **Sut, os o gwbl, mae agenda polisi newid yn yr hinsawdd Llywodraeth y DU yn effeithio ar ffermydd teuluol, gan gynnwys cenedlaethau o ffermwyr yn y dyfodol a chymunedau gwledig yng Nghymru?**

Mae pwysleisio manteision amgylcheddol ar draul manteision sosio-economaidd yn creu risg i ffermydd teuluol gan fod ganddynt lai o dir, ar y cyfan. Mae pryder bod pwysau cynyddol ar ffermwyr i symud at ddatblygu coedwigoedd a darparu gwasanaethau ecosystem. Risg polisi o'r math yw creu diboblogi gwledig trwy newid tir amaethyddol o gynhyrchu bwyd i ddarparu nwyddau amgylcheddol yn unig. Mae pryder hefyd am gwmnïau mawr yn prynu ffermydd i blannu coed er mwyn gwrthbwyso carbon, gan weddnewid cymunedau gwledig. Dyma heriau pellach a allai fygwth hyfywedd y Gymraeg fel iaith gymunedol.

Mae perthynas glos rhwng datblygu'r amgylchedd yn gynaliadwy a gwarchod diwylliant a iaith leiafrifol. Nid mater o'r naill beth neu'r llall ydyw, ac mae'r ddau yn mynd law yn llaw â'i gilydd. Mae nifer o astudiaethau yn cyfeirio at y gydberthynas yma rhwng iaith a datblygu cynaliadwy, er enghraifft "[Linguistic diversity of natural UNESCO world heritage sites: bridging the gap between nature and culture](#)", lle ceir argraffiadau am rôl ieithoedd cynhenid ar gyfer rheoli adnoddau naturiol a datblygu cynaliadwy.

- **Pa gamau ymarferol gall Lywodraeth y DU gymryd i gefnogi'r cymunedau hyn a sut ddylai llywodraethau'r DU a Chymru gydweithio i gefnogi treftadaeth a diwylliant unigryw y cymunedau hyn, gan gynnwys eu cyfraniad i'r iaith Gymraeg?**

Dylai Llywodraeth y DU sicrhau fod ei pholisïau yn cymryd i ystyriaeth anghenion penodol Cymru a'r gwahaniaethau rhwng sector amaethyddol y wlad hon a'r gwledydd datganoledig eraill, yn enwedig Lloegr. Er enghraifft, cyfeiriwyd uchod at faint ac incwm cymharol fach ffermydd Cymru. Nodwn hefyd fod gwahaniaeth sylweddol rhwng safon y tir yng Nghymru a Lloegr. Dengys ystadegau 2018 fod 80% o dir amaethyddol Cymru yn dir a ddynodwyd yn ardal lai ffafriol, tra mai 16% yn unig o dir

Lloegr a ddynodwyd felly.⁵ Dylid sicrhau bod modd i ffermwyr y gwledydd datganoledig gystadlu â'i gilydd mewn ffordd deg sy'n hyrwyddo masnach.

O safbwynt busnes a'r Gymraeg fel arf marchnata, ceir cydnabyddiaeth gyffredinol fod y Gymraeg yn gallu cynorthwyo twf busnesau a datblygu cynnyrch arloesol. Yn benodol, ceir tystiolaeth helaeth am werth y Gymraeg at ddibenion hyrwyddo, brandio a marchnata yn y sector gweithgynhyrchu a marchnata bwyd a diod. Canfu ymchwil Comisiynydd y Gymraeg yn 2014 bod defnyddio'r Gymraeg yn gwneud i'r cynnyrch sefyll allan; yn atgyfnerthu delwedd brand; yn cynnig cyfleoedd i werthu mewn marchnadoedd newydd; ac yn cael ei gweld fel arwydd o ansawdd. Yn ôl ymchwil diweddarach i agweddau busnesau mawr, bach a chanolig yng Nghymru yn 2018 mae 82% yn cytuno'n gryf neu i raddau fod defnyddio'r Gymraeg yn ychwanegu gwerth ar gynnyrch neu wasanaeth; ac mae 84% yn cytuno'n gryf neu i raddau fod defnyddio'r Gymraeg o fudd i frand y busnes. Ateir y casgliadau hyn hefyd gan ganfyddiadau gwaith ymchwil Llywodraeth Cymru. Yn y cyd-destun hwn, ystyrir bod cyfle yn cael ei golli i fanteisio i'r eithaf ar y Gymraeg fel nodwedd unigryw i gynnyrch ffermydd Cymru mewn marchnad gystadleuol. Dylid tynnu sylw, felly, at werth y Gymraeg fel arf marchnata all gynyddu potensial y farchnad, a chefnogi ffermwyr i'w defnyddio.

Dylid casglu data am y Gymraeg o fewn y diwydiant amaeth yng Nghymru er mwyn sicrhau bod modd datblygu polisiâu ar sail tystiolaeth gyfredol am sefyllfa'r iaith. Dylid hefyd asesu effaith unrhyw bolisi neu fenter arfaethedig ar y Gymraeg. Dylid cefnogi ffermydd teuluol a mentrau gwledig a chynorthwyo pobl ifainc i aros yn eu hardal leol, os mai dyna eu dymuniad, er mwyn cynnal hyfywedd cymunedau a diogelu'r Gymraeg. Dylid sicrhau nad oes gostyngiad yn y cyllid a roddir i Gymru, ac yn benodol i'r sectorau amaethyddol a gwledig, yn dilyn Brexit. Mae'n hollbwysig sefydlu cytundeb ariannol tymor hir er mwyn rhoi'r sicrwydd i ffermwyr Cymru fydd yn eu galluogi i gynllunio a datblygu eu busnesau yn hyderus. Dylid hefyd sicrhau y diogelir buddiannau'r gymuned ffermio, a safonau uchel amaeth Cymru, mewn unrhyw gytundebau masnach newydd neu ddiwygiedig arfaethedig. Dylid gweithredu yn unol ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'i nodau llesiant, yn ogystal â strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, sy'n anelu at greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Er mwyn cyflawni hyn, mae cyfathrebu da rhwng llywodraethau'r DU a Chymru yn allweddol.

⁵ [farming-in-wales-web-welsh.pdf](https://www.farming-in-wales-web-welsh.pdf) ([senedd.cymru](https://www.senedd.cymru))